

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, nos Fawrth y 10ed o Ionawr 2011.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Dafydd G Owen (Cadair); Sharon W Jones, D Martin Williams, Harry W Owen (Talysarn); Elwyn Jones Griffith, Ifan Glyn Jones, Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle (Penygroes); Gwyndaf Roberts, Hefina M W Roberts, Richard Evans (Llanllyfni); T Les Jones (Nantlle); Eurig W Evans (Nebo). OP Huws (Cyngorydd Sir).

Ceisiadau Cynllunio: Derbyniwyd cais i ymestyn hyd oes gweithgareddau chwarela yn Chwarel Graianog, Llanllyfni – roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais.

Caniatawyd ceisiadau blaenorol gan Gyngor Gwynedd, sef cais cynllunio Tay y Ffordd, Clogwyn Melyn, Penygroes, a cais i Ysgol Bro Lleu, Penygroes.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

***Praesept**: Wedi trafodaeth, penderfynwyd bod y Cyngor yn cadw'r taliad Praesept yr un fath eto eleni, er mwyn peidio ag ychwanegu mwy at y dreth Cyngor i drigolion y Dyffryn.

*Derbyniwyd llythyr yn ein hysbysu o benderfyniad y panel trwyddedu i ymestyn oriau agor y Halfway Inn, Talysarn. Mae'r cais wedi ei gymeradwyo.

*Derbyniwyd llythyr yn ein hysbysu na fydd Cyngor Gwynedd yn gosod mwy o finiau halen yn yr ardal. Byddwn yn holi Cyngor Gwynedd am adolygiad o leoliadau biniau halen, ac yn parhau i bwysu am fwy o finiau halen yn ein ardal. Roedd y Cyngorwyr yn diolchgar iawn am eu gwasanaeth drost gyfnod yr eira.

Adroddiadau Pentrefi.

***Penygroes** Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn ein hysbysu nad yw'r cyllid ar gael i gyrbio Cae Cwting. Roedd y Cyngorwyr yn derbyn nad oes arian ar hyn o bryd i wneud unrhyw waith, ond byddwn yn gofyn iddynt roi'r cais ar restr man waith at y dyfodol.

***Swyddfa Gofrestru** – roedd cryn bryder bod bygythiad i'r gwasanaeth gofrestru bresennol yn y pentref gael ei stopio. Mae'r swyddfa i fod yn agored ar brynhawn dydd Mawrth, drwy apwyntiad, i gofrestru marwolaethau a genedigaethau, ond mae trigolion y Dyffryn wedi bod yn gorfod mynd i Gaernarfon ac i Fangor i gofrestru ar ol methu cael apwyntiad ym Mhenygroes. Byddwn yn cywyno i Gyngor Gwynedd am y diffyg gwasanaeth. Byddai colli'r gwasanaeth hwn yn lleol yn colledu cefn gwlad, a roedd y Cyngor yn teimlo'n gryf iawn ei bod yn hynod bwysig bod trigolion yn parhau i ddefnyddio'r swyddfa ym Mhenygroes i gofrestru – defnyddiwch hi, nid collwch hi!

*Roedd golwg ofnadwy yn y maes parcio gyferbyn a Poveys ar ol y gwyliau Nadolig, gydag ysbwriel wedi ei adael wrth y biniau ailgylchu. Roedd y Cyngorwyr yn drist iawn o weld hyn, a bod ysbwriel wedi ei adael yn anghyfreithlon mewn man cyhoeddus. Cysylltwyd a Chyngor Gwynedd, a daeth swyddogion i glirio'r safle o fewn diwrnod. Byddwn yn gyrru llythyr i'r Cyngor i ddiolch am eu gwasanaeth.

Talysarn Derbyniwyd cwynion am fwy o tipio anghyfreithlon yr ochr arall i Bro Silyn – roedd dodrefn ac ati wedi eu gadael yno.

Llwybrau a Mynwentydd. Byddwn yn cefnogi cais i Gyngor Gwynedd lenwi tyllau yn y lon o'r Eglwys at fynwent yr Eglwys.

Materion yn ymwneud a'r heddlu. Trafodwyd dogfen Dyfodol Plismona. Bydd y Cyngor yn pwysleisio ei bod hi'n bwysig iawn i'n ardal i gadw CBM a PCSO ym Mhenygroes. Mae'n hanfodol ein bod yn cadw'r swyddogion yma mewn ardaloedd gwledig – y PCSO yn arbennig, gan ei bod yn rhoi hyder i'r cyhoedd, a bod plismyn yn cael eu GWELD ar y strydoedd yn gyson.